Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 45 Hydref 2018



**Oherwydd llenwir y ddaear â gwybodaeth**
**o ogoniant yr ARGLWYDD,**
**fel y mae'r dyfroedd yn llenwi'r môr.**

(Habacuc 2:14)

*Annwyl Gyd-aelodau*,

Hoffwn ddiolch i swyddogion a blaenoriaid y gwahanol gapeli am eu gwaith a'u cydweithio hapus. Mewn byd sy'n llawn o gwyno ac anniolchgarwch, mewn oes greulon a chwerw, mae'n rhagorol medru diolch i chi i gyd, yn flaenoriaid ac yn gyd-aelodau, am eich caredigrwydd. Bydded i ni barhau i hybu ysbryd caredig yn ein plith, yn ein siarad a'n cydweithio.

A minnau'n dechrau ar ail flwyddyn yn eich plith rwy'n sylweddoli, er i mi ddechrau medru rhoi wynebau ac enwau pobl at ei gilydd, mai parhau yn arwynebol y mae fy adnabyddiaeth o storïau ac o wir amgylchiadau pobl. Gofynnaf eto felly am eich amynedd wrth geisio parhau i ddod i adnabod cymunedau, cynulleidfaoedd ac ardaloedd gwahanol ac wrth i mi geisio cymeradwyo'r Arglwydd Iesu Grist i'n ffydd a'n bywydau.

Wrth i *Gair o'r Garn* fynd i'r wasg mae proffwydi'r tywydd yn darogan storm gynta'r hydref. Er mor hardd yw tymor yr hydref, ychydig ohonom sy'n edrych ymlaen at weld y coed yn noeth ac oerfel y gaeaf yn cerdded y tir.

Cawsom ein hatgoffa eisoes gan y siopau mawr fod y Nadolig ar y ffordd. A chyn y bydd dyddiaduron y rhifyn hwn o *Gair o'r Garn* wedi eu cyflawni, byddwn ninnau hefyd wedi cael dathlu fod y Gair tragwyddol wedi dod yn gnawd, bod y gwir oleuni sydd wedi llewyrchu o dragwyddoldeb ac sydd wedi erlid y tywyllwch wedi dod i'n byd.

Ni chredwn, fel dywedodd C. S. Lewis, mewn gaeaf heb y Nadolig!

Ond nid ydym am gefnu ar yr haf a'i harddwch eto.

**Cofiwch Dryweryn**

Yn ystod haf poeth 2018 pan oedd llynnoedd ac afonydd yn sychu cawsom gyfle i weld henebion diflanedig yn ymddangos o'r newydd. Caerau, ffermdai a phriffyrdd cudd yn datgelu cyfrinachau.

Ac yn ystod sychder yr haf mynnodd ysbrydion yr enw 'Tryweryn', a foddwyd gan ddinas Lerpwl, gerdded yr hen lwybrau. Ochr yn ochr â'r ymwelwyr a fu'n troedio rhwng gatiau a muriau ac ar hyd heolydd yr hen fro, roedd fel pe bai hiraeth y bywyd a ddiflannodd am droedio'i lwybrau drachefn!

Wrth synfyfyrio ger y llyn hedodd llu o feddyliau heibio. Dim ond yn ddiweddarach y daeth hi'n bosibl crynhoi'r meddyliau oedd rywsut yn croesi o fyd hanes a dychymyg i fywyd ein capeli heddiw.

Dychmygais sut yr oedd pentrefwyr yn y 1950au a'r 1960au wedi wynebu grymoedd gwleidyddol a diwylliannol na pharchai gymuned, na bro nac iaith. Ni allent wrthsefyll y dichell neu'r cyfrwystra gwleidyddol, na beth y byddai rhai sylwebwyr am ei alw'n frad. A deil yr aceri o ddyfroedd mud i lefaru'n huawdl am y bywyd a fu yno.

**Cofiwch Dryweryn**

Oes, mae yna rymoedd diwylliannol cryf fel pe baent yn ysgubo olion hen fyd a'i hen gredoau o'r neilltu.

Ond tybed a ydym yn sylweddoli, pan ddisodlir newyddion da am ras ein Harglwydd Iesu Grist a chariad Duw a chymdeithas yr Ysbryd Glân, nad tyfu i aeddfedrwydd yr ydym fel yr ymffrostia rhai ond cilio i fyd y cysgodion, i fyd ein hofergoelion a'u duwiau mympwyol? O dan yr wyneb mae barbareiddiwch yr hen grefyddau, a gafael difaol duwiau ffrwythlondeb yn aros i reibio.

Meddyliais wedyn fod y bywyd a berthynai i gwm unig Tryweryn wedi'i foddi, o'i anfodd, dan ddyfroedd oer y mynyddoedd oedd yn gyfarwydd i drigolion y fro. Nid dyfroedd dieithr, ond ei nentydd ei hun a'i boddodd. A'i nentydd ei hun a guddiodd olion diwylliant a chapel a chymuned.

Nid grymoedd oddi allan yn unig a foddodd ein heglwysi chwaith. Do, daeth tro ar fyd. Rydym mewn byd gwahanol i un ein tadau a'n mamau yn y ffydd. Ac ar lawer cyfri cyfaddefwn na wyddom sut i droedio'r byd newydd hwn. Tybed na chawsom ein gorchfygu gan seiniau cyfarwydd, ffrydiau mawl y geiriau tlws? Tybed na foddwyd 'ysbryd y peth byw' dan ddyfroedd ein harferion a'r draddodiadaeth a etifeddwyd gennym? Tybed na fu i ni ddirnad dyfnder onest amheuon ein hoes a chuddio'r 'peth byw' dan su ein caneuon a'n peirianwaith enwadol?

**Cofiwch Dryweryn**

Yn y sychder mynnodd olion y pentre ymddangos. Dim ond dros dro, mae'n wir. Ond ymddangos wnaethant, yn dystiolaeth i warineb, diwylliant a chymdogaeth. Ac wrth edrych ar y lôn a arweiniai at y pentre ac olion cymuned a fu, meddyliais am y bywyd na fynnai farw, y bywyd a fynnai ymddangos – y goleuni sy'n llewyrchu yn y tywyllwch ac na all y tywyllwch ei amgyffred, ei gaethiwo na'i drechu.

Ar lan y llyn gwelais y dyfroedd ar ffo am ennyd. Gwelais yr hyn fu'n guddiedig yn codi i'r wyneb. A'r cyfan fel rhyw addewid o ddaioni a gallu Duw i'r oesoedd sy'n dod. A dechreuais ganu'n dawel yn fy nghalon:

> Mae ei ffyddlondeb fel y môr
> Heb fesur a heb drai
> A'i drugareddau hyfryd sy'n
> Dragywydd yn parhau.

A sylweddolais o'r newydd nad gan ddyfroedd dichellgar anghrediniaeth oes, na ffasiwn fympwyol ein dydd, nid gan ansicrwydd am ein dyfodol, na'r cynllun strategol effeithiol nesaf y gallwn ni ei weithredu y mae'r gair olaf.

Ffyddlondeb fel y môr yn Iesu Grist. Ffyddlondeb heb drai yn Iesu Grist. Trugareddau hyfryd nad oes diwedd arnynt. A hynny am fod y rhoddwr, Iesu Grist ei hun, heb ddiwedd arno! Oes, mae heriau yn ein hwynebu, ond y mae nerth yr hwn sydd ynom ni yn fwy na'r grymoedd sydd yn y byd. Lladd a difa yw rysáit y byd. Concro marwolaeth a rhoi Bywyd yn ei holl gyflawnder yw diben Iesu Grist.

Do, mi wn i mi ddweud hyn yn y rhifyn diwethaf. Ond mae ei wahoddiad i ni ym mhob oes, ym mhob adeg o'n bywyd, yn werth ei adrodd yn fynych: 'Profwch a gwelwch mai da yw yr Arglwydd.'

Duw a drugarhao wrthym.

*Watcyn James*

## *Cynnau Cannwyll?*

Un peth, meddir, yw melltithio'r tywyllwch a chablu'r nos. Rhywbeth arall yw ceisio diffinio 'tywyllwch' yn athronyddol, a cheisio dadansoddi a yw nos a goleuni yn eu hanfod yr un peth, neu a ydynt mewn ffordd neilltuol yn hanfodion gwahanol i'w gilydd!.

Ond gwell o lawer nag eistedd mewn tywyllwch yw cynnau golau!

Un peth yw clywed pobl yn pitïo capeli wyneb yn wyneb â'r trai ar grefydd sydd yn ein gwlad a hwythau (er eu bod yn fynych yn aelodau) yn esgeuluso, peth arall yw ceisio wynebu'r heriau a cheisio ystyried natur dyfodol tystiolaeth eglwys Iesu Grist yn y dydd hwn.

I'r diben hwn, gwahoddwyd y Parch Meirion Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, atom i'r ofalaeth i geisio gennym ateb y cwestiynau sylfaenol am 'Beth yw Eglwys'? Neu, o'i roi mewn ffordd arall, 'I be mae'r eglwys yn dda'?

Cynhelir y cyfarfod am 7 yr hwyr, ar 7 Tachwedd, yn y Garn. Er mai o dan enw Pwyllgor yr Ofalaeth y gwahoddir y Parch Meirion Morris – ac fel arfer cyfarfod i swyddogion a blaenoriaid yr ofalaeth ydyw – y tro hwn fe fydd y cyfarfod yn agored i bob un ohonoch. Felly, dewch i'n cynorthwyo i ddychmygu ac i ganfod llwybr newydd i'w droedio i'r dyfodol.

## *Addewidion Duw—adnodau i godi'r galon*

Ar ddechrau tymor newydd o weithgarwch, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi cynhyrchu ffilm fer yn cynnwys deg adnod i'n calonogi. Mae ambell adnod wedi'i chynnwys yn y rhifyn hwn, ac i ddarllen y gweddill, ewch i wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Dyma'r adnod gyntaf:

> Peidiwch hel atgofion am y gorffennol, a dim ond meddwl am beth ddigwyddodd o'r blaen! Edrychwch, dw i'n gwneud rhywbeth newydd! Mae ar fin digwydd! Ydych chi ddim yn ei weld? Dw i'n mynd i agor ffordd drwy'r anialwch, a rhoi afonydd yn y tir diffaith. (Eseia 43:18–19)

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parchedig Ddr R. Watcyn James,***
***Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ***
***01970 880615***
***ebost: watcynalowri@gmail.com***

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c***

7 Hydref Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro
Glan-rhyd, Trewyddel, am 1.30 o'r gloch

13 Hydref Pwyllgor Blynyddol Chwiorydd yr Henaduriaeth
Capel y Garn am 2.30 o'r gloch

15/16 Hydref Sesiynau Hyfforddiant ar Ddiogelu Data
nos Lun am 6pm, bore Mawrth am 10am
yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth

21 Hydref Gwasanaeth uno eglwysi'r Babell a'r Garn
Babell, Dôl-y-bont, am 2 o'r gloch
Te croeso I ddilyn, yn festri'r Garn

7 Tachwedd 'Ble Nesaf?' Cyfarfod agored
gyda'r Parch Meirion Morris,
Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

23 Rhagfyr Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau
Capel y Garn am 5 o'r gloch

25 Rhagfyr Oedfa ar fore'r Nadolig am 9 o'r gloch
dan arweiniad y Gweinidog

Elusen yr ofalaeth am eleni yw Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref Aberystwyth a'r Cylch (HAHAV), a bydd casgliadau oedfaon yr ofalaeth yn cael eu cyflwyno i'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn.

Gweler hefyd: www.capelygarn.org; Twitter: @capelygarn

# Gwreiddiau

Do, fe fu'n haf poeth. A do, fe fu pob garddwr yn ymwybodol o'r angen i ddyfrio'r planhigion bach yn ystod y sychder. Methodd y planhigion oedd heb eu dyfrhau'n ddigonol. Roedd eu gwreiddiau'n rhy arwynebol. Nid oedd ganddynt ddyfnder!

Gwelwyd coed oedd wedi eu sefydlu ers blynyddoedd yn colli eu dail yng ngwres a phoethder yr haf. Bwriodd eraill eu ffrwyth yn gynnar er mwyn amddiffyn eu hunain, a hongian yn llipa wnaeth y ffrwythau eraill. Roedden nhw fel pe baent yn tybied 'Os alla i oroesi am wythnos arall ... Dim ond glaw sydd ei angen ...'



A rywsut, yn wyrthiol bron, y funud y daeth cawod, eginodd dail newydd, llanwodd y ffrwythau a chafwyd cynhaeaf toreithiog unwaith eto.

Ond yn y gwreiddiau yr oedd y gallu i sugno maeth a nerth.

Bydd y grŵp Gwreiddiau, sy'n cael ei gynnal yng Nghapel y Garn, bob bore dydd Iau, rhwng 10:15 a 11:30 wedi ailddechrau ar 27 Medi. Os nad ydych wedi bod cyn hyn, bydd croeso cynnes yn eich disgwyl. Os nad ydych erioed wedi bod o'r blaen, gadewch i mi eich sicrhau nad oes yna unrhyw beth bygythiol nac anghynnes yn perthyn i'r cyfarfod.

Beth yr ydym yn ei wneud yw edrych ar Gredo'r Apostolion. Cyffes Ffydd ydyw sy'n perthyn i bob eglwys ym mhob oes (bron) ac ar bob cyfandir. Nid ydym yn bleidiol, yn sectyddol nac yn ddifrïol o farn wahanol. Y cyfan yr ydym am ei wneud yw ailddarganfod ein Gwreiddiau a thynnu ar y nerthoedd all ein hadnewyddu yn ein gwreiddiau.

Felly.

Beth amdani? Dewch. Ac os ydych yn swil, dewch â rhywun arall efo chi!


Nid oes yna unrhyw gwestiwn dwl.

Ond, dych chi'n gwybod ... Yr holl gwestiynau 'na yr hoffech eu gofyn, ond heb wybod ymhle y gellwch eu holi ...

Wel. Dyma'r ateb. Grŵp Gwreiddiau ar fore Iau amdani!

# Tudalen y Plant

Aeth Ruth a Naomi ar daith bell i wlad Jwda. Darllenwch eu hanes yn Llyfr Ruth yn y Beibl, ac yna rhowch gynnig ar y tasgau yma.




| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| R | U | TH | E | Ŷ | D |
| N | M | B | O | A | S |
| A | O | L | C | I | O |
| O | A | F | A | F | B |
| M | B | A | E | N | E |
| I | O | R | P | A | D |

**Chwilio'r Geiriau**
RUTH
BOAS
ŶD
ORPA
CAE
OBED
NAOMI
MOAB

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes ysgol Sul, os dymunwch, erbyn **31 Hydref**. Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i
Megan Lewis,
Ysgol Sul Pen-llwyn
enillydd tasg y rhifyn diwethaf.

## *Ysgol Sul Pen-llwyn*

Dydd Sul, 15 Gorffennaf, oedd diwrnod olaf yr ysgol Sul dros wyliau'r haf. Dechreuwyd drwy ddarllen pennod 5 o Efengyl Luc, gyda gweddi yn dilyn. Roedd y darlleniad yma'n berthnasol gan mai tasg y plant wedyn oedd cwblhau tudalen y plant o *Gair o'r Garn* ar alw'r disgyblion cyntaf. Roedd pawb yn eiddgar i roi o'u gorau gan enwi dau o ddisgyblion yr Iesu a cheisio dysgu'r adnod: "Dewch ar fy ôl i, ac fe'ch gwnaf yn bysgotwyr dynion."

Yn dilyn, cafwyd parti bach i gwblhau gweithgareddau'r ysgol Sul am y tymor, gyda gwobrau arbennig i'r tri oedd wedi mynychu fwyaf dros y flwyddyn. Cafodd pob plentyn rodd fechan am eu ffyddlondeb a'u hymroddiad i'r ysgol Sul.



Roedd yn braf cael dechrau tymor newydd ym mis Medi gan y teimlwn ei bod mor bwysig i blant ddod i wybod storïau'r Beibl a dysgu mwy am Iesu Grist.

> Hoff yw'r Iesu o blant bychain,
> Llawn o gariad ydyw Ef,
> Mae yn gwylio drostynt beunydd
> Ar Ei Orsedd yn y Nef.

Mae ysgolion Sul yn cwrdd
yng Nghapel Seion,
yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor,
ac Ysgol Sul Unedig Bow Street yng Nghapel y Garn.
Croeso cynnes i blant o bob oed

## ***Babell, Dôl-y-bont***

Yn nhymor yr hydref fe fydd stormydd a gwyntoedd cryfion yn bethau i'w disgwyl. A gadewir ôl eu difrod pan fydd canghennau a choed praff yn cael eu chwythu drosodd.

Bydd canghennau a fu'n ffrwythlon un waith yn cael eu torri.

Tebyg yw effaith tymor yr hydref ar un o gapeli'r ofalaeth, oherwydd bydd drysau tlws y capel yn Nôl-y-bont yn cau am y tro olaf a bydd aelodau'r Babell, Dôl-y-bont, yn ymuno ag aelodau Capel y Garn cyn diwedd y mis.

Wedi trafodaethau dros gyfnod o fisoedd, ac wedi ymgynghori â'r Henaduriaeth, penderfynodd aelodau'r Babell na allasent wynebu'r costau anorfod oedd yn wynebu'r capel os oedd yr achos i barhau.

Anodd yw cefnu.

Roedd angen dewrder i wynebu'r penderfyniad i symud. Yn dilyn pleidlais ddirgel ar y 3ydd o Fehefin penderfynodd aelodau'r Babell ac aelodau'r Garn, gyda mwyafrif ysgubol, o dan arolygiaeth yr Henaduriaeth, i uno'r ddau achos ac ymffurfio'n gynulleidfa unedig yng Nghapel y Garn.

Rydym am sicrhau aelodau'r Babell y bydd croeso twymgalon yn eu disgwyl wrth iddynt ymuno fel aelodau yn y Garn.

Cynhelir oedfa i uno'r ddau achos ar 21 Hydref am 2:00 yn y Babell. Bydd y gwasanaeth 'uno' o dan ofal yr Henaduriaeth ac o dan arweiniad Llywydd yr Henaduriaeth. Bydd 'Te Croeso' yn cael ei gynnal wedi'r oedfa yn festri'r Garn.

Carwn eich gwahodd yn gynnes i'r gwasanaeth, a fydd yn cynnwys elfennau o ddiolch i'r Arglwydd am a fu ac o ymbil am ffafr yr Arglwydd ar ein trefniadau i'r dyfodol.

*Watcyn James*

Gwasanaeth Diolchgarwch Seion, Capel Seion

Nos Fercher, 3 Hydref, am 7 o'r gloch

Pregethwr Gwadd: Y Parchedig Gwyn Elfyn, Y Tymbl

Croeso cynnes i bawb

## *Taith Capel Rehoboth*

Ddydd Sadwrn, 15 Medi, aeth aelodau a ffrindiau capel Rehoboth ar eu taith flynyddol gan fynd heibio Llyn Brianne (isel ei ddyfroedd ar ôl yr haf sych) tuag at Myddfai. Ymwelwyd yn gyntaf â'r ganolfan i ymwelwyr yn y pentref ac ar wal y caffi yno ceir gwybodaeth ddefnyddiol am yr ardal, Meddygon Myddfai a chwedl Morwyn Llyn-y-fan Fach. Ar ôl mwynhau pryd ysgafn yn y caffi, ymwelwyd ag eglwys hynafol Sant Mihangel yn y pentref, lle cafwyd mwy o hanes yr ardal gan ŵr lleol, Mr Lyn Richards. Uchafbwynt y diwrnod oedd ymweld â chartref 'Y Pêr-ganiedydd', William Williams, Pantycelyn, lle dysgwyd mwy am ei waith a'i fywyd gan y Parch Ddr Watcyn James a Mr Cecil Williams, un o'i ddisgynyddion, sy'n byw ym Mhantycelyn. Aethpwyd ymlaen wedyn i Eglwys Llanfair-ar-y-bryn i weld bedd a chofeb William Williams. Ar ôl treulio ychydig o amser yn Llanymddyfri teithiwyd i Dafarn Jem, ger Cwm-ann, i fwynhau pryd blasus iawn i gloi diwrnod addysgiadol a phleserus dros ben. Mae ein diolch yn fawr i Robert Williams am drefnu'r cyfan ar ein cyfer unwaith eto.

*Carys Briddon*





**_Pererindod Seion_**

Ers sawl blwyddyn bellach mae'n draddodiad gan aelodau Seion i drefnu pererindod i ymweld â lle o ddiddordeb hanesyddol. Ddydd Sul, 19 Awst, teithiodd tri ar ddeg ar hugain o bererinion brwd, yn aelodau Seion a ffrindiau, i'r Ysgwrn – nifer yn y bws ac eraill mewn ceir.

Yn y dderbynfa cafwyd croeso cynnes gan y staff – te neu goffi a chacennau cartref blasus iawn. Darllenwyd englynion R. Williams Parry i Hedd Wyn a cherdd ragorol, hollol newydd, a ymddangosodd yn *Gair o'r Garn*, o waith Vernon Jones i'r Porthor, sef Gerald, gan John Gwynn Jones.

Cawsom ein tywys wedyn i adeilad yr arddangosfa lle gwelwyd nifer o ddogfennau, lluniau ac arteffactau pwysig ac unigryw cyn cerdded i fyny i'r Ysgwrn a'n rhannu yn ddau grŵp i'n tywys o gwmpas. Roedd y ddwy arweinyddes yn byrlymu wrth adrodd hanes y tŷ a disgrifio mor fyw arwyddocâd pob stafell ar lawr ac i fyny'r llofft, gan dreulio cryn amser yn manylu ar wneuthuriad ac arwyddocâd pob un o'r symbolau niferus a welir ar grefftwaith y Gadair Ddu a gedwir yn y parlwr. Roedd y gegin eto'n lle diddorol dros ben ac yn haeddu'r amser a roddwyd i ddisgrifio pob manylyn o hanes yno. O'r tŷ aethom i'r sgubor, lle coffawyd mewn darluniau ar y mur luniau deg ar hugain o fechgyn Trawsfynydd a'r ardal a gollodd eu bywydau, fel Hedd Wyn, yn y Rhyfel Mawr, a chawsom weld ffilm yn darlunio cyflafan maes y gad.

Wedi ailymgynnull yn y cerbydau a throi am adref galwyd yng Ngwesty Glan yr Afon, Pennal, am swper, a phob un yn fodlon braf yn cyrraedd adref wedi diwrnod cofiadwy a bendithiol dros ben.

*Ina Tudno Williams*



Cynhaliwyd Swper Cynhaeaf y Garn nos Wener, 14 Medi, a braf oedd gweld Bethlehem, Llandre, yn llawn sgwrsio a chymdeithasu. Roedd y trefniadau dan ofal Alan Wynne Jones a pharatowyd y bwyd gan Dwysli Peleg-Williams a Delyth Jones. Yn dilyn y swper cyflwynodd yr Arglwydd Elystan-Morgan rodd i Erddyn a Gwenda James fel gwerthfawrogiad o'u llafur yn gofalu am drefniadau Bethlehem am flynyddoedd lawer. Diolch yn fawr i chi eich dau.



## Hydref

*Blaenor y Mis: Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Bryn Roberts*

3 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o’r gloch
Oedfa ddiolchgarwch dan arweiniad Mrs Lowri James
Casgliad tuag at Aberaid

**7** Oedfa am 10 o’r gloch yng Nghapel Noddfa

13 Pwyllgor Blynyddol Chwiorydd yr Henaduriaeth
Capel y Garn am 2.30 o’r gloch

**14** *Sul Diolchgarwch*
Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog am 10 o’r gloch

19 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
‘Menywod yn fy Mywyd’ – Llinos Dafis

**21** Oedfa am 10 o’r gloch dan arweiniad y Parch Elwyn Pryse
Oedfa uno’r Babell â’r Garn am 2 o’r gloch
yng Nghapel y Babell, Dôl-y-bont
Te Croeso i ddilyn yn Festri’r Garn

**28** Oedfa am 10 o’r gloch dan arweiniad y Parch John Owen

Yn dilyn yr oedfa fore Sul, 15 Gorffennaf, aeth nifer o aelodau’r Garn i gymdeithasu dros ginio ym mwyty Crefftau Pennau — gweler y llun ar y chwith.

Hyfryd oedd cael cwmni Watcyn a Lowri James, yn ogystal â Wyn a Judith Morris. Diolch i’r staff am y croeso ac am y bwyd blasus.

***Tair Cenhedlaeth***

1930
Daw'r dyrfa heno i Seilo
A'u ffydd ar dân wrth uno,
I foli Duw a dwyn pob loes
Gan gario'r groes heb gwyno.

1970
Mae newid heno'n Seilo
Y dyrfa'n mynnu cilio,
A hunanoldeb dyrys dyn
Yn gyndyn greu'r dadfeilio.

2010
Mae'n brudd yn Seilo heno
Yn dywyll a di-groeso,
A'r Beibl hardd yn llaith a mud
Yn alltud unig yno.

Llongyfarchiadau calonnog i Dilys Baker-Jones ar ei llwyddiant yn ennill y gystadleuaeth am gyfansoddi tri thriban yn Eisteddfod Talaith a Chadair Powys, Bro Hafren 2018, yn ogystal ag ennill yr ail wobr am gyfansoddi emyn plant.

***Addewidion Duw—adnodau i godi'r galon***

Fi sy'n gwybod beth dw i wedi'i gynllunio ar eich cyfer chi," meddai'r ARGLWYDD. "Dw i'n bwriadu eich bendithio chi, dim gwneud niwed i chi. Dw i am roi dyfodol llawn gobaith i chi. (Jeremeia 29:11)

Mae pobl yn gallu cynllunio beth i'w wneud, ond yr ARGLWYDD sy'n arwain y ffordd. (Diarhebion 16:9)

## Tachwedd

*Blaenor y Mis: Dewi G Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Marian B Hughes / Eddie T Jenkins*

**4** Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

7 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Pnawn yng nghwmni'r Parch Watcyn James

'Ble nesaf?' Cyfarfod agored gyda'r Parch Meirion Morris
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

**11** Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad Mr Lyndon Lloyd

14 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Y Digymar Iolo Morganwg' – Yr Athro Geraint H. Jenkins

16 Cyfarfod Swyddogion y Garn am 2 o'r gloch

**18** Oedfa gymun am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

24 Bore Coffi a Stondin dan ofal y Chwiorydd
10.30 tan 12 o'r gloch yn festri'r Garn

**25** Oedfaon dan arweiniad y Parch Ddr John Tudno Williams
oedfa'r bore am 10 o'r gloch yn y Garn;
oedfa'r hwyr am 5 o'r gloch ym Methlehem, Llandre

***Bethlehem, Llandre***

Os byddwch am drefnu i logi Bethlehem, cysylltwch â:
Mrs Nans Morgan, Dolgwiail, Llandre; rhif ffôn: 828487;
ebost: nansmorgan@btinternet.com.

## *Capel y Garn*

Llongyfarchiadau calonnog:

- i Vernon Jones a Dilys Baker-Jones ar eu llwyddiannau yn adran farddoniaeth Eisteddfod Powys;
- i Meinir Williams a Gwern Penri ar eu llwyddiant yn ennill gradd prifysgol, ac i Iwan Williams a fydd yn gweithio fel meddyg yn Ysbyty Gwynedd;
- i Ffion Evans yn ei chwrs ym Mhrifysgol Abertawe, ac i Glesni Morgan ym Mhrifysgol Lerpwl;
- i'r Parch Ddr Nerys Brown ar ei phenodiad yn Rheithor Eglwys Dunblane;
- i Gwyneth Keyworth ar gael ei henwebu am wobr BATFA Cymru am yr Actores Orau.

Ein dymuniadau gorau i chi i gyd yn y dyfodol.

**Rhestr Flodau'r Garn**

Os hoffech chi gyfrannu blodau ar gyfer rhai o'r Suliau gwag, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os gwelwch yn dda. Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

| **Hydref** | **Tachwedd** | **Rhagfyr** |
|---|---|---|
| **7** Noddfa | **4** | **2** Alan W Jones |
| **14** Seintwar | **11** Delyth Jones | **9** Noddfa |
| **21** | **18** Dwysli Peleg-Wms | **16** Bodhywel |
| **28** | **25** | **23** Bodhywel |
| | | **30** |

## Rhagfyr

*Blaenor y Mis: Gruffydd Aled Williams*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Vernon Jones*

**2** Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

5 Cymdeithas Chwiorydd y Garn
Cinio Nadolig a chymdeithasu

**9** Oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa

14 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Dathlu'r Nadolig' dan ofal Alan Wynne Jones

**16** Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10 o'r gloch yn y Garn

**23** Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch
Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau am 5 o'r gloch

25 *Bore'r Nadolig*
Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 9 o'r gloch

**30** Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

***Trefnu Cyfarfodydd yn y Garn***

Os byddwch am drefnu i ddefnyddio'r capel neu'r festri, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Garn, Alan Wynne Jones: ffôn 01970 828163; ebost: alan.jones212@btinternet.com. Diolch am eich cydweithrediad.

Llinos Iorwerth Dafis, *Llinynnau* (Bwstryd, 2018), 126 tt.

ISBN 978-1-5272-2324-0  £7.50


---

'Bydd yr elw o werthu'r nofel hon yn mynd tuag at helpu ffoaduriaid rhyfel', meddai'r broliant. Ie, llafur cariad sydd yma dros rai sy'n agos iawn at galon Llinos. Hen ddigon o reswm, felly, dros brynu'r gyfrol — a gyhoeddwyd ar gost yr awdur ei hun — a dangos ein cefnogaeth fel unigolion ac fel gofalaeth.

Ond mae rhesymau eraill, mwy hunanol, dros estyn am y nofel hon. 'Mwynhewch y darllen' yw'r siars ar y cefn, a do, fe wnes i fwynhau, unwaith imi sortio mas pwy oedd pwy ym mywyd Ceridwen Jeremy, gwraig weddw dda ei byd sy'n byw mewn ardal debyg i'n hardal ni. Uwch Arolygydd gyda'r Heddlu yw ei merch, Menna, a honno'n greadures anghynnes. Y mab rhadlon, Ifan, yw cannwyll llygad Ceridwen, a chawn wybod pam erbyn y diwedd. Ond mae angen i'r darllenydd fod yn effro ac yn amyneddgar wrth ddarllen y penodau cyntaf: caiff y digwyddiadau eu datgelu bob yn dipyn ac o fwy nag un ongl, gyda symud 'nôl ac ymlaen mewn amser.

'Nofel uchelgeisiol', meddai beirniaid Gwobr Goffa Daniel Owen amdani yn Eisteddfod Ynys Môn 2017, nid yn unig ar gownt ei dull o adrodd stori, ond am iddi fynd i'r afael â phynciau o sylwedd, a phynciau anodd. Yn eu plith mae godineb, trais, tor priodas, ac ing cariadon y gorfodwyd iddynt dreulio oes ar wahân. Down i ddeall yn raddol yr amgylchiadau sydd wedi nychu a chlwyfo'r bobl hyn i gyd, a dechrau teimlo drostynt — arwydd sicr fod y stori wedi cydio. Mae sawl tro annisgwyl yma sy'n mynd â'r fam-gu benwyn Ceridwen i ganol gweithredu uniongyrchol a thorri'r gyfraith er mwyn helpu gwahanol rai sy'n chwilio am loches. Awgrymir bod y rhwydwaith 'tanddaearol' (sy'n cynnwys rhai o ffyddloniaid Bethel a hoelion wyth y fro) mewn olyniaeth dda o Gymry sydd wedi agor eu drysau a'u calonnau i ddieithriaid waeth beth fo'r gost. Mae'r stori'n symud yn gyflym iawn tua'r diwedd, ond mae'r epilog celfydd yn tynnu'r llinynnau ynghyd.

Cwyna rhai fod 'the kindness of strangers', ymadrodd y dramodydd Tennessee Williams, wedi'i orddefnyddio gan awduron. Mae *Llinynnau* yntau'n deitl a welwyd o'r blaen — ar gasgliad o feirniadaeth lenyddol gan Branwen Jarvis (1999), ac ar gyfrol o gerddi gan Aled Jones Evans, brawd yng nghyfraith ein cyn-weinidog, y Parchedig Robert Jones. Ond mae'r nofel hon yn sefyll allan gyda'i chynnwys amserol, ei chymeriadau diddorol, a nerth yr argyhoeddiad fod y da *yn* gallu trechu'r drwg. Prynwch a mwynhewch.




*Marged Haycock*

## ***Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth***

Ar gychwyn tymor newydd, estynnodd y llywydd, Eiriona Metcalfe, groeso i'r aelodau i'r cyfarfod yn festri capel Rehoboth brynhawn Mawrth, 11 Medi. Braf oedd cael croesawu'r gŵr gwadd, sef Raymond Williams o Giliau Aeron, milfeddyg sydd wedi ymddeol erbyn hyn ac sydd wedi symud yn ôl i Giliau Aeron ar ôl byw a gweithio dros glawdd Offa am nifer o flynyddoedd. Mae'n gyd-gadeirydd Cymdeithas Cymru Ohio, ac eleni bu'n trefnu'r dathliadau a gynhaliwyd ym mis Mehefin i nodi'r dau canmlwyddiant ers i chwe theulu benderfynu gadael ardal Cilcennin yn 1818 i sefydlu cymuned Gymreig yn Ohio.

Roedd yn ddiddorol clywed yr hanes pam y penderfynodd y teuluoedd ymfudo i'r Amerig, a'r anawsterau a ddaeth i'w rhan yn ystod y daith. Cychwynnodd 36 ohonynt ar long o Lerpwl ond bu farw un yn ystod y fordaith. Mae'n dda deall fod llwyddiant wedi dod i ran nifer ohonynt ar ôl iddynt ymsefydlu yn yr Amerig. Cafwyd gwybodaeth am yr holl ddigwyddiadau a fu yn ardal Aberaeron yn ystod wythnos y dathlu ac roedd hanner cant o Americanwyr o dras Cymreig wedi dod draw i ymuno yn y dathliadau. Bu'r wythnos yn llwyddiant mawr.

Diolchwyd i Mr Williams am sgwrs a hanesion diddorol iawn. Mwynhawyd y te a'r bisgedi ar y diwedd a baratowyd gan Mai Leeding a Myfanwy Rowlands.

*Carys Briddon*

## *Jean Elyse Rajaofetra – cenhadu ym Madagascar*

Ym mis Mai 2007, cysylltodd gŵr o'r enw Jean Elysé Rajaofetra o Fadagascar ag Eddie Jenkins, Ysgrifennydd y Garn ar y pryd, drwy gyfrwng gwefan y Garn, oedd wedi cael ei lansio ychydig cyn hynny. Eglurodd iddo fod yn gweithio yn Eglwys Penrhys yn y Rhondda yn ystod 2003–4, fel gwirfoddolwr ar ran Eglwys Iesu Grist ym Madagascar dan gynllun Cyngor Cenhadaeth Fyd-eang (CWM). Ar ôl dychwelyd adref roedd wedi teimlo galwad i wasanaethu ei Arglwydd, a hynny'n benodol drwy ymuno â llong genhadol, dan adain mudiad o'r enw Operation Mobilisation. Ond, cyn y gallai wneud hynny, roedd yn rhaid iddo godi arian a fyddai'n ei alluogi i dreulio chwe mis yn Ne'r Affrig yn cael ei hyfforddi i'r gwaith.

Er gwaethaf rhai amheuon, gan nad oeddent yn gwybod pa mor ddilys oedd y cais mewn gwirionedd, penderfynodd Swyddogion y Garn roi cyfraniad o £50 i'w gefnogi. Roedd Elysé mor ddiolchgar a llwyddodd i godi'r arian angenrheidiol ar gyfer yr hyfforddiant. Ymunodd â llong genhadol y *Doulos*, a theithiodd drwy Ddenmarc, Ewrop, y Caribî a rhannau o'r Affrig tan 2011. Ar ôl hynny mae wedi bod yn weithiwr cenhadol gydag Operation Mobilisation yn ôl gartref yn Madagascar.

Dros y blynyddoedd mae Elysé wedi cadw mewn cysylltiad ag Eddie Jenkins, ac yn anfon cyfarchion i'r eglwys ac ychydig o'i hanes o bryd i'w gilydd. Derbyniwyd y neges ddiweddaraf ganddo ym mis Gorffennaf eleni, ac yn ddiddorol iawn, mae'n cyfeirio at ddaucanmlwyddiant glanio'r cenhadon cyntaf ym Madagascar. Dyma gyfieithiad o'r neges, a dderbyniwyd ar 4 Gorffennaf:

Annwyl Edward,

Gan ein bod dros hanner ffordd drwy'r flwyddyn, cefais f'atgoffa o eiriau'r Ysgrythur yn Salm 90:12, "Felly dysg ni i gyfrif ein dyddiau, inni gael calon ddoeth." Mae amser yn hedfan yn wir ond credaf ei bod yn bwysig iawn i gael amser i eistedd i lawr a myfyrio ynghylch daioni Duw yn ein bywydau bob dydd. Felly rydw i'n ddiolchgar iawn am yr hyn sydd wedi digwydd i mi ac o'm cwmpas yn ystod y chwe mis diwethaf hyn, am y profiadau cyffrous a heriol.

Yn ddiweddar, fe fues i ar ymweliad â dwyrain Madagascar lle rydym wedi adeiladu perthynas â nifer o eglwysi lleol. Roedd yn braf gweld y brodyr a'r chwiorydd hynny eto. Cefais sgwrs â ffrind dros bryd o fwyd a soniodd yntau am wahanol agweddau o'r weinidogaeth yn ei dref, sef porthladd mwyaf y wlad.

Yna, cefais dipyn o syndod pan ddywedodd fod llawer o bobl yn dal i ddod ynghyd ar y traeth, ychydig gamau yn unig o'i dŷ, yn gynnar iawn yn y bore pan fydd yn lleuad newydd. Fe fyddan nhw'n cynnal defod o eilunaddoliaeth o flaen y môr – yn bobl dlawd a chyfoethog fel ei gilydd. Ac mae hyn mewn tref lle mae cannoedd o eglwysi a bron pob un ohonynt yn llawn i'r ymylon ar y Sul.

Ond yng nghanol dryswch o'r fath, mae Duw yn gwneud rhywbeth gwych. Mae llawer o gredinwyr ifanc yn sefyll i fyny dros eu ffydd, hyd yn oed os nad yw'n hawdd delio â'r pwysau cymdeithasol i wneud hynny. Eleni, mae Eglwys Madagascar yn dathlu 200 mlwyddiant dyfodiad y cenhadon cyntaf i'r ynys hon. Mae'n ysbrydoliaeth i mi wybod stori'r cenhadon Cymreig hynny a ddaeth yma dan nawdd Cymdeithas Genhadol Llundain, a hefyd fy mod wedi cael gweld y wlad a'u hanfonodd yma. Gallwch ddychmygu'r cenhadon cynnar hynny'n cyrraedd yr ynys ar 18fed Awst 1818 yn yr union fan yn y dref y cyfeiriais ati uchod, i ddod ag Efengyl y Duw Byw yma.

Rydw i hefyd yn llawen o weld rhai credinwyr yn mynegi eu ffydd drwy ymgorffori yn eu bywydau yr hyn rydw i wedi ei ddysgu iddyn nhw mewn dosbarthiadau astudiaeth Feiblaidd. Bythefnos yn ôl fe fues i'n dysgu yn ysgol Sul oedolion fy eglwys ac roeddwn wrth fy modd. Yn wir, roeddwn wedi treulio rhai misoedd yn pwysleisio pwysigrwydd edrych ar y cyd-destun wrth ddarllen yr Ysgrythur. A hwn oedd y tro cyntaf i bawb ddweud hynny o'u pen a'u pastwn eu hunain. Mae hyn yn golygu eu bod yn gwneud hynny!

Yn olaf, rydw i'n gweddïo ac yn gobeithio y byddwch yn gweld ac yn profi daioni'r Arglwydd o wythnos i wythnos. Rydw i hefyd yn parhau i ddiolch Iddo amdanoch.

*Pwyntiau gweddi*:

- Diolch i Dduw am ei ddarpariaeth i mi yn fy mywyd a'm gweinidogaeth.
- Diolch i Dduw am y cenhadon cynnar a anfonodd Ef i ddod ag Efengyl Iesu Grist i Fadagascar.
- Gweddïwch, os gwelwch yn dda, y bydd llawer mwy o eglwysi cenhadol eu bryd ym Madagascar.
- Gweddïwch, os gwelwch yn dda, y bydd Duw yn meithrin pobl ifanc i fynd i rannau o'r ynys sydd heb eu cyrraedd eto, a'r tu hwnt i hynny.
- Gweddïwch, os gwelwch yn dda, y bydd mwy o gredinwyr lleol yn gweld gwerth astudio'r Ysgrythur yn ddyfal.

Yng Nghrist,
Elysé

## Y Parch Enoch Watkin James, Brynllys (1818–1894)

Gyda'r achos yn y Babell yn ymuno efo Capel y Garn, braf o beth cael cofio cyfraniad un o gewri Capel y Babell, sef y Parch Enoch Watkin James. Degawd ar ôl ei farwolaeth, trwy dysteb gyhoeddus fe godwyd plac er cof amdano yng Nhapel Soar, y Borth. Mae hwn bellach yng Nghapel y Babell – a gobeithiaf y bydd lle iddo yng Nghapel y Garn:

Er serchus gof am y Parch Enoch W. James, Brynllys,
Gweinidog ffyddlawn a chymeradwy gyda y Methodistiaid Calfinaidd.
(Gwnaeth hefyd wasanaeth amrhisiadwy fel meddyg)
Ganwyd Mai 3 1818. Dechreuodd bregethu 1843.
Ordeiniwyd i gyflawn waith y weinidogaeth 1855.
Etholwyd yn Llywydd Cymdeithasfa y De 1893.
Hunodd yn mlwyddyn ei lywyddiaeth, Gorphenaf 13, 1894.
Yr hwn a gerddodd o amgylch gan wneuthur daioni ac iachâu
llaweroedd oblegid yr oedd Duw cyd ag ef.

Fe'i ganwyd ar fferm Caergywydd (a safai bryd hynny o dan y ffordd fawr), yn fab i Richard James ac Ann Watkins, ac fe'i bedyddiwyd yng Nhapel y Garn. Teulu Ann, sef Watkins, Brysgaga, oedd wedi rhoi'r darn tir i'r Trefnyddion Calfinaidd i adeiladu'r capel. O fewn blwyddyn i'w enedigaeth, symudodd y teulu i ffermio yn Brynllys – fferm llawr gwlad fwyaf Stad Gogerddan gan ei bod yn cynnwys Fferm Ynys Fergi a'i morfa helaeth.

Yn ddyn ifanc, roedd yn dipyn o gymeriad ac yn hoff iawn o saethu, gan ennill cwpan am y gamp ymysg catrodau o wirfoddolwyr Ceredigion ym mhlas Nanteos. Gyda ymddeoliad ei dad i ffermdy Bryndderwen, daeth yn denant ar y fferm a chael cryn lwyddiant efo'i wartheg duon a'i geffylau gwedd.

Dechreuodd bregethu yn ŵr ifanc, ond gan fod incwm sefydlog ganddo o'r fferm gwrthododd dderbyn unrhyw dâl am ei waith fel cennad drwy gydol ei oes. Wedi cael ei ordeinio i'r weinidogaeth, fe gymerodd ofal o Gapel Soar, y Borth (a safai bryd hynny ger yr ysgol bresennol).

Ei dad a'i frawd Abraham sydd yn cael y clod mwyaf am sefydlu'r achos yn Nôl-y-bont. Roedd Abraham yn denant ar fferm Glanfred a thra oedd yno fe sefydlodd fusnes bragdy yn Nôl-y-bont.

Gydag amser, fe ddaeth y teulu fwyfwy dan ddylanwad dirwestol y Methodistiaid (yn ogystal â chryn nifer o'i gwsmeriaid) ac felly gwnaed penderfyniad i gau'r busnes gwneud cwrw ac agor busnes trin crwyn. Daeth hwn yn fusnes mawr gan gyflogi ugain o ddynion y pentref a chymaint eto o blant a gwragedd nes cael ei ddifrodi mewn tân yn 1903. Gyda chau'r bragdy daeth y sgubor hops yn rhydd ac fe benderfynwyd agor hon fel ysgoldy i dros gant o blant yn ystod y wythnos ac yna fel ysgol Sul ar y Saboth. Bu Abraham yn flaenor blaenllaw yn y Babell, gyda'r capel presennol yn cael ei adeiladu yn 1874 a'r Parch Enoch James yn ei gymryd dan ei adain. Gan fod yr ysgoldy gwreiddiol ym mhentref Dôl-y-bont, fel Capel y Babell, Dôl-y-bont, y mae'r adeilad presennol wedi cael ei adnabod, ond, a bod yn dechnegol gywir, fe saif ym mhentref Pen-y-bont.

Roedd Enoch yn farchogwr penigamp. Gan nad oedd yn derbyn cyflog fel gweinidog, efallai, roedd mwy o ryddid ganddo i grwydro i bregethu. Fe âi cyn belled â Thregaron yn y de a Llanbyn-mair i'r gogledd – gan farchogaeth yno, pregethu dair gwaith ac yna, os oedd yn bell o gartref, dychwelyd ar y Llun.

*Y*n ŵr ifanc, roedd wedi cael rhyw fath o brentisiaeth gan ddoctor enwog o Aberdyfi, ac roedd Enoch yn cael ei gydnabod fel un o feddygon esgyrn mwyaf medrus ei oes. Pan âi i bregethu oddi cartref, fe ddeuai llawer i'w gwrdd, ac yna ar ôl dychwelyd i Brynllys fe fyddai'r ffermdy yn aml yn fwy tebyg i syrgeri na ffermdy. Diffyg bwyd o safon oedd gwraidd llawer afiechyd, a byddai Enoch yn gwybod yn iawn pwy allai fforddio'r doctor, ac roedd aml i ŵr tlawd yn mynd oddi yno gyda nodyn i'r bwtsiwr yn daladwy i Brynllys.

Roedd yn Rhyddfrydwr brwd ac wedi bod yn ymgyrchu'n frwd dros David Davies, Llandinam, yn Etholiad San Steffan. Roedd ei fab, y Dr James Rowland James, wedi priodi chwaer David Davies ac ymhen amser aeth i weithio fel meddyg dros weithfeydd yr Ocean. Fel ffafr i Enoch, fe gytunodd David Davies i osod carreg sylfaen adeilad newydd Capel Soar, y Borth, gan wneud cyfraniad swmpus at gost yr adeilad. Yn 1889 etholwyd Enoch yn aelod cyntaf ardal y Borth ar y Cyngor Sir. Yr un oedd y neges yr amser honno, sef eisiau gwella ffens y môr. Roedd y *politics* lleol yn cael eu rhannu'n enwadol, ond serch hynny bu cryn ddathlu yn nhafarnau'r Borth noson yr etholiad.

Cafodd un ar ddeg o blant, wyth merch a thri mab. Dilynodd y mab hynaf, Richard, ef i ffermio yn Brynllys tra aeth mab arall i ffermio yn Moelcerni a chael ei ordeinio i'r Weinidogaeth hefyd. Yn anffodus, bu Enoch Watkin James yr ieuengaf farw yn 24 mlwydd oed ond roedd eisoes yng ngofal Capel Soar.

Cafodd Enoch angladd mawr gyda 36 gweinidog yn bresennol, ond mae ei gyfarwyddyd at drefn yr angladd yn dweud llawer amdano: doedd dim blodau i fod, neb i siarad – dim ond gweddïo a darllen y gair; doedd ddim am gael cerbyd angladd gan ei fod am gael ei gario ar yr ysgwydd fel dyn cyffredin.

Gŵr arbennig*:* 'yr hwn a gerddodd o amgylch gan wneuthur daioni ac iacháu llaweroedd oblegid yr oedd Duw gyda ef'.

*Owen Jenkins*

***Addewidion Duw—adnodau i godi'r galon***

Dewch at yr ARGLWYDD, profwch ei nerth; ceisiwch ei gwmni bob amser. (1 Cronicl 16:11)

Atebodd Iesu, "Y gorchymyn pwysica ydy hwn: 'Gwrando Israel! Yr Arglwydd ein Duw ydy'r unig Arglwydd. Rwyt i garu'r Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, â'th holl feddwl ac â'th holl nerth.' A'r ail ydy: 'Rwyt i garu dy gymydog fel rwyt ti'n dy garu dy hun.' Does dim un gorchymyn sy'n bwysicach na'r rhain."
(Marc 12:29–31)

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Janet Jones, Nasareth
*Ysgrifennydd*: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **13 Ionawr:**

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewinerys@gmail.com

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com